# COVID-19

(wedi amau neu gadarnhau)

**Decsamethason yn unig**

Dilynwch y cyfarwyddiadau yma tan eich bod yn well.

| Cyfanswm eich dos dyddiol o decsamethason | Pan yn sâl |
|---|---|
| Llai na 2mg | Cymerwch 2mg decsamethason. |
| 2mg a mwy | Cymerwch eich dos arferol o decsamethason. |

**Decsamethason mewn cyfuniad gyda hydrocortison**

Beth bynnag yw'ch dos o decsamethason, tan eich bod yn well:

Cymerwch eich dos arferol o decsamethason a chymerwch 20mg hydrocortison pob 6 awr.

# Triniaeth Ddeintyddol

| Triniaeth | Cyn | Ar ôl |
|---|---|---|
| Gwaith deintyddol neu lawdriniaeth fân (e.e. llenwad dant, glanhau a sglein) | Un awr cyn yr apwyntiad am y driniaeth, cymerwch 0.75mg decsamethason ychwanegol (neu 20mg hydrocortison). | Os ydych yn teimlo'n benysgafn, cysglyd cyfoglyd, yn chwydu, chwysu neu'n crynu, cymerwch 0.75mg decsamethason ychwanegol (neu 20mg hydrocortison). |
| Llawdriniaeth ddeintyddol (e.e. gwaith i wreiddyn y dant o dan anesthetig) | Un awr cyn y driniaeth cymerwch 0.75mg decsamethason ychwanegol. | Cymerwch ddwbl eich dos arferol o decsamethason am 24 awr ar ôl y driniaeth wedyn gostyngwch yn ôl i'ch dos arferol. |
| Llawdriniaeth ddeintyddol fawr (e.e. tynnu dant dan anesthetig) | Trafodwch eich anghenion steroid gyda'ch deintydd a doctor wrth gynllunio'r driniaeth. Efallai bydd angen pigiad steroid arnoch cyn y driniaeth. | Cymerwch ddwbwl eich dôs arferol o decsamethason am 24 awr ar ôl y driniaeth wedyn gostynwch yn ôl i'ch dôs arferol. |

# Cael Babi

Mae'n hollol ddiogel i chi cael babi a bwydo o'r fron wrth gymryd decsamethason. Ni fydd decsamethason yn achosi niwed i chi na'r babi.

Gall meddyginiaethau steroid arall gweithio'n well mewn menywod beichiog.

Os ydych yn darganfod eich bod yn feichiog yn ystod triniaeth gyda decsamethason, cymerwch eich steroid yn ôl yr arfer. Cysylltwch gyda'ch doctor yn syth i ddweud wrthynt eich bod yn cymryd decsamethason. Bydd y doctor yn trefnu apwyntiad i adolygu eich meddyginiaeth steroid. Efallai bydd y doctor yn eich newid i steroid arall i roi'r gofal gorau i chi yn ystod eich beichiogrwydd.

Dilynwch y cyngor a rhoddir gan eich doctor yn ystod beichiogrwydd.



**Triniaethau cosmetig:**

Cyn y driniaeth: Cymerwch eich dos arferol o decsamethason fel arfer.

Os yw'r driniaeth yn debygol o barhau am amser hir, un awr cyn y driniaeth cymerwch 0.75mg decsamethason ychwanegol (neu 20mg hydrocortison).

Ar ôl y driniaeth: Os ydych yn teimlo'n benysgafn, cysglyd, cyfoglyd, yn chwydu, chwysu neu'n crynu, cymerwch 0.75mg decsamethason ychwanegol (neu 20mg hydrocortison).

